# Empagliflozin mewn therapi cyfunol ar gyfer trin diabetes math dau

25 Mawrth 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Os oes angen i unigolyn gymryd dau fath o gyffur gwrthddiabetig, argymhellir empagliflozin (a elwir hefyd yn Jardiance) fel triniaeth ar gyfer diabetes 2 math dau pan gaiff ei gymryd â chyffur o'r enw metformin, ond dim ond os yw'r unigolyn:

- yn methu â chymryd math o gyffur a elwir yn sulfonylurea neu
- os yw'n wynebu risg sylweddol o hypoglycaemia neu ei ganlyniadau.

Os bydd angen i unigolyn gymryd tri math o gyffur gwrthddiabetig, argymhellir empagliflozin fel triniaeth ar gyfer diabetes math dau pan gaiff ei gymryd naill ai â metformin a sulfonylurea, neu metformin a math o gyffur a elwir yn thiazolidinedione.

Argymhellir empagliflozin hefyd fel triniaeth ar gyfer diabetes math dau pan gaiff ei gymryd ag inswlin, gyda chyffuriau gwrthddiabetig eraill neu hebddynt.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych ddiabetes math dau a bod eich meddyg yn credu mai empagliflozin, fel y'i disgrifir uchod, yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai empagliflozin fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd empagliflozin nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Cafodd empagliflozin ei argymell am ei fod yn gweithio cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG ac mae'n costio tua'r un faint.

## Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Gyda diabetes ceir gormod o glwcos (siwgr) yn y gwaed, a gall hyn arwain at broblemau iechyd difrifol. Hormon a gynhyrchir gan y corff yw inswlin sy'n rheoli lefel y siwgr yn y gwaed. Mae diabetes math dau yn digwydd pan na all y corff gynhyrchu digon o inswlin, neu pan na all ddefnyddio'r inswlin a gynhyrchir yn gywir.

Mae empagliflozin yn gweithio drwy rwystro'r arennau rhag ail-amsugno'r siwgr yn y gwaed, gan gynyddu maint y siwgr a waredir o'r corff yn yr wrin. Mae hyn yn lleihau lefel y siwgr yn y gwaed.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Cymdeithas Diabetes Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, 0207 723 5357, www.bemda.org
- Diabetes UK, 0345 123 2399, www.diabetes.org.uk
- Sefydliad Ymchwil ac Iechyd Diabetes (DRWF), 0239 263 7808, www.drwf.org.uk
- Sefydliad Iechyd De Asia, 0203 331 0677, www.sahf.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1209-4